Howell Elvet Lewis, 'Elfed', 1860–1953
Gweinidog (A) bardd ac emynydd

I dawel lwybrau gweddi,
O Arglwydd, arwain fi,
rhag imi gael fy nhwyllo
gan ddim daearol fri:
mae munud yn dy gwmni
yn newid gwerth y byd,
yn agos iawn i'th feddwl
O cadw fi o hyd.

Elfed

Ganed Elfed ar 14 Ebrill 1860 yn y Gangell, Caerfyrddin, i deulu o werinwyr goleuedig a mynychwyr capel Blaen-y-coed. Deuai ei dad James Lewis o gymdogaeth Tanglwst, ger Capel Iwan, a'i fam Anna o Gwm-gof. Ganwyd iddynt un ar ddeg o blant ond bu farw dau ohonynt yn eu plentyndod.

Prin fu cyfle addysg Elfed ond yr oedd yn amlwg yn blentyn galluog o'r dechrau. Dysgodd yr ABC o Feibl ei dad, a'r cartref a'r ysgol Sul oedd prif ffynhonnell ei addysg, ond pan oedd yn wyth agorwyd ysgol gan T.G. Miles yn ysgoldy'r capel. Profodd Elfed ei fedr yn fuan ac fe'i gwnaed yn ddisgybl-athro ar ei gyfoedion. Aberth mawr i'w rieni oedd ei anfon yn bedair oed i Ysgol Ramadeg Castellnewydd Emlyn. Dechreuodd bregethu yn ieuanc ac fe'i hadwaenid fel bachgen-bregethwr. Ymddiddorai mewn barddoni a dechreuodd gystadlu mewn eisteddfodau gan fabwysiadu'r ffugenw "Coromandel".

Derbyniwyd ef i Goleg Caerfyrddin yn un ar bymtheg oed lle'r oedd gŵr o'r enw Vance Smith yn brifathro, a William Morgan a David E. Jones yn athrawon. Gallai yn hawdd fod wedi mynd i goleg prifysgol i raddio, ond am ei fod ef yr hynaf o deulu lluosog derbyniodd alwad i Fwcle, sir Fflint, yn ŵr ifanc ugain oed ym 1880.Yn ystod ei yrfa bu'n bugeilio cynulleidfaoedd ym Mwcle,

Hull, Llanelli a Llundain. Tra oedd yn weinidog yn Hull enillodd brif wobrwyon yr Eisteddfod Genedlaethol yn ogystal â gwobrwyon eisteddfodau llai. Enillodd y prif draethawd yn eisteddfod Llundain 1887 ar farddoniaeth gymraeg yn y 18fed ganrif ac yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 1888 cipiodd y Goron am bryddest, sef 'Y Saboth yng Nghymru'. Cyhoeddodd hefyd *Caniadau Elfed* a'i gyfrol o bregethau, *Plannu Coed*, a bu'n gyd-olygydd *Y Caniedydd Cynulleidfaol*. Yn y gyfrol olaf hon yr ymddangosodd llawer o'i emynau mwyaf poblogaidd am y tro cyntaf, fel, 'Pwy sydd gyda'r wawr yn rhodio', 'Pob peth ymhell ac agos', 'Rho im yr hedd na ŵyr y byd amdano', a 'Na foed cydweithwyr Duw byth yn eu gwaith yn drist'.

Ym 1904 derbyniodd Elfed alwad i King's Cross lle bu'n gweinidogaethu hyd 1940. Yn ddiamau yr oedd yn berson anghyffredin o ddawnus a gallu cynhenid ganddo i drin geiriau, dawn a fendithiwyd gan Dduw. Ond ei faes arbennig oedd maes yr emyn. Canodd emynau sy'n taro pob tant – emynau efengylaidd, emynau o fawl ac emynau moesol ymarferol ac mae ganddo rai ar gyfer pob achlysur. Yn wir, cyfansoddodd emynau sydd ymhlith trysorau'r iaith Gymraeg, ac y maent yn parhau yn gymorth i addoli, i fynegi ac i esbonio gwirioneddau ein ffydd. Y mae 44 o'i emynau yn Caneuon Ffydd.

Bu'n briod dair gwaith: y tro cyntaf â Mary Taylor, yna â Elisabeth Lloyd, ac yn olaf â Mary Davies. Yr oedd yn dad i saith o blant. Bu farw ym Mhenarth yn blygeiniol ar fore dydd Iau 10 Rhagfyr 1953.